| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Tachwedd 5 2014** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar y Taliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn gwneud sylwadau ar yr adroddiad cynnydd, yn enwedig o ran diffyg cynnydd gyda'r prif fater a godwyd, gan benderfynu a oes angen unrhyw wybodaeth bellach neu adroddiadau cynnydd pellach.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Roedd adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 yn cynnwys cynllun gweithredu gyda phedwar Mater Cymedrol ac 14 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Pan gyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 15 Ebrill 2014, mynegodd y Pwyllgor rai pryderon o ran bod y broses dalu bresennol yn anghynaladwy ac felly bu i'r Pwyllgor ofyn i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad dilynol ac adrodd yn ôl iddynt.

Mae Atodiad 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd y cynllun gweithredu ac yn dangos mai dim ond pump o'r camau gweithredu sydd wedi eu cwblhau, gyda thri arall ar y gweill. Nid yw chwech o'r camau gweithredu wedi cael sylw, gan gynnwys y prif fater a godwyd (Mater 1), a oedd yn gofyn am adolygiad llawn o'r broses ar gyfer gwneud taliadau i'r rheiny sy'n gadael gofal. O'n trafodaethau, ni fu unrhyw gyswllt rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Refeniw a Budd-daliadau er mwyn trafod dull corfforaethol.  Mae'r diffyg cynnydd o ran y mater allweddol hwn hefyd wedi cael effaith ar faterion eraill o fewn y cynllun gweithredu.

Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad pellach ym mis Ionawr 2015.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig gogyfer â newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os nad yw cynllun gweithredu Archwilio Mewnol yn cael ei weithredu, bydd gwendidau yn parhau yn y gweithdrefnau ar gyfer gwneud taliadau i'r rheiny sy'n gadael gofal fel yr amlinellir yn yr adroddiad Archwilio Mewnol gwreiddiol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn